

lyfrgell arbennig a llyfr yn cynnwys meddyginiaethau teuluaid. Digon o amrywiaeth.

Wrth gymharu testunau'r gwahanol lyfrau fel mesur o chwaeth y ddwy ardal gallech feddwl fod Conwy a Phwllheli yn ddau le gwahanol iawn. Beth oedd i gyfri am hynny?

Rwy'n credu mai presenoldeb un gŵr, y Parchg. Michael Roberts, gweinidog Penmount, Capel y Methodistiaid, un o hoelion wyth y Cyfundeb, a oedd yn gyfrifol i raddau helaeth am natur y cynnyrch o wasg Robert Jones ym Mhwllheli. Rhyw drigain mlynedd yn ôl penodwyd gŵr o Bwllheli — Cynan — yn sensor dramâu Cymraeg cyntaf y wlad. Can mlynedd cyn hynny roedd Michael Roberts, heb ymyrraeth unrhyw Arglwydd Ganghellor, wedi cymryd arno'i hun i wneud gwaith cyffelyb efo llyfrau. Dywedir fod y diwygiwr Howell Harris wedi cyflyru ei hun i beidio dangos gwên ar ei wyneb, ac mi gaf y teimlad fod yr hen Michael Roberts wedi bod yn was ffyddlon iddo.

Gellir dychmygu Michael Roberts yn rhoi ei law ar ysgwydd Robert Jones cyn i hwnnw gael cyfle i gael ei draed oddi tano, a hwylyswyd y ffordd iddo wneud hynny gan mai prif glerc swyddfa'r cyfreithiwr David Williams, lle y treuliai Robert Jones ran o'r dydd fel Sheriff's Officer, oedd ei fab, John Roberts, gŵr uchel iawn ei barch yn y dref. Ychydig a wyddai Robert Jones, wrth roi ei drwyn am y tro cyntaf trwy ddrws y swyddfa honno, beth oedd o'i flaen.

Yn 1834 symudodd Robert Jones i Fangor ac mae'n debyg ei fod yn falch o ysgwyd llwch Pwllheli oddi ar ei draed oblegid wrth wneud cafodd ryddid i argraffu fel a fynnai. Ymhlith cynnyrch ei wasg ym Mangor oedd *Y Ffigaro*, papur dwy-ieithog, a oedd yn cynnwys ysgrifau gwawdlyd am bersonau neilltuol a darluniau ohonynt, y papur Cymraeg cyntaf i fentro i'r maes hwnnw. Wrth adael i'r Parchg. Michael Roberts ffrwyno rhyddid Robert Jones collodd Pwllheli gyfle i dorri tir newydd yn hanes argraffu ond, fel y gwelir nes ymlaen, ni bu'r hen le yn brin o sawl cyfle arall i wneud hynny.

Wedi ymadawiad Robert Jones cafwyd bron bedair blynedd ar ddeg heb argraffu llyfr sy'n werth sôn amdano ym Mhwllheli, ond y mae'n werth crybwyll enw Isaac Francis Jones, argraffwr a fu, yn ôl *Llyfrau Trethi'r Tlodion*, yn cynnal gwasg mewn tŷ yn Stryd Penlan sy'n dal ar ei draed ar y tro at festri Capel Penlan. Yr unig enghraifft o'i waith y gwyddys yn sicr amdano yw'r *Cyfrif o Dderbyniadau a Thaliadau Tuag at Adeiladu Capel Penmount* yn nechrau'r 1840au, sy'n ddiogel

yng nghist y capel, ond y mae'n bosib awgrymu un arall.

Ers sawl blwyddyn bellach y mae'n glir mai cangen o wasg I. F. Jones ym Machynlleth oedd y wasg ym Mhwllheli. Gwyddys am lyfrau a argraffwyd gan Jones yn ei bencadlys ond y mae'n debyg y defnyddid y wasg ym Mhwllheli i argraffu mân bethau at ofynion lleol.

Tua blwyddyn a hanner yn ôl bu boneddiges o'r Ariannin — ond nid o Batagonia — ym Mhwllheli yn dangos bil am nyddau a brynwyd yn 1846 o siop Thomas Owen, fferylllydd, drygist a groser, yn y Stryd Fawr, Pwllheli. Fel y gwelir o'r llun mae'r bil yn dangos enw a chyfeiriad y masnachwr, llun eryr ar un ochr a llun ceffylau a buwch ar yr ochr arall ac y mae'n brawf fod un o siopwyr y dref yn defnyddio biliau a oedd wedi cael eu hargraffu yn barod cyn canol y ganrif ddiwethaf. Lle anghysbell iawn oedd Pwllheli yr adeg honno gyda dim ond gwasanaeth cerbyd y post unwaith y dydd i gysylltu'r lle â'r dref agosaf, Caernarfon.

Roedd yn bosib, gellir tybio, i sicrhau'r biliau pwrpasol hynny o weisg yng Nghaernarfon, Bangor, neu fannau eraill ond y tebygolrwydd yw fod gwasg Isaac Francis Jones yn medru eu cynhyrchu. Nid argraffwr lleol heb wybod dim am y byd tu hwnt i'w filltir sgwâr oedd Isaac Jones ond un a fu am gyfnod yn gweithio mewn gwasg fawr yn Llundain lle yr argraffwyd *The Watchman*, misolyn y Wesleaid, lle cafodd weld beth a ddarperid ar gyfer masnachdai'r brifddinas.

Buasai wedi bod yn bosib iddo brynu'r teip angenrheidiol, megis llun yr eryr a'r anifeiliaid ar gyfer argraffu'r biliau cyn dychwelyd i Gymru. Gellir ystyried, hefyd, y posibilrwydd fod rhai o gynhyrchwyr cyfarpar ar gyfer argraffwyr yn Lloegr wedi bod yn hysbysebu yng Nghymru, fel y gwnaeth S. a T. Sharwood, Austin Letter Foundry, 120 Aldersgate Street, Llundain, yn Rhifyn 1 o *Addysg Chambers i'r Bobl* a argraffwyd ym Mhwllheli yn Ionawr 1849.

Byddai'n ddiddorol cael llais un neu ragor o aelodau'r Gymdeithas sydd wedi ymddiddori yn yr agwedd hon o argraffu yng Nghymru er mwyn cael gwybod pa mor hen yw'r dystiolaeth fod biliau wedi cael eu hargraffu yn cael eu defnyddio gan siopau'r wlad. Nid wyf yn cofio gweld neb yn sôn am y peth yn *Y Casglwr*, a da fyddai cael gwybod a oes gwerth hanesyddol i'r bil o Bwllheli!

Tua diwedd 1847, neu'n gynnar yn 1848, fe aeth gwasg I. F. Jones ym Mhwllheli i ddwylo Robert Edwards ac y mae'n debyg y symudwyd hi i'r ochr arall o Stryd Penlan, rhyw ddau neu dri drws i'r gogledd o dafarn Penlan Fawr. Yn ystod y tair neu bedair blynedd y bu yno cyhoeddodd Edwards beth fyddwn i yn ei alw yn llyfr hynotaf o holl gynnyrch gweisg Pwllheli. Honno oedd y gyfrol gyntaf o *Addysg Chambers i'r Bobl*, cyfieithiad o'r gwaith Saesneg *Chambers's Information for the People*.

Ar wahân i *Addysg Chambers* dechreuodd Robert Edwards

argraffu llyfr Owen Jones (Meudwy Môn) ar hanes Cymru hefyd, cyn rhoi'r gorau i'r cwbl tua dechrau 1852 a diflannu o olwg pawb. William Edwards oedd enw'r argraffwr a orffennodd y gwaith o gyhoeddi *Hanes Cymru* a gorfodwyd fi, oherwydd tebygrwydd y cyfenwau, i ystyried y posibilrwydd bod Robert a William Edwards yn berthnasau, hwyrach yn frodyr. I dorri'r stori'n fyr derbynias yn y diwedd y tebygolrwydd mai argraffwr o Gaernarfon oedd William Edwards a ddenwyd i Bwllheli i roi tipyn o drefn ar wasg Robert Edwards ar ôl ei ymadawiad sydyn.

Yn 1855 aeth y Parchg. Hugh Hughes (Tegai) i Bwllheli i weithio gwasg Edwards. Wedyn fe'i prynodd. Mae'n ymddangos nad oedd gan Tegai ddiddordeb mewn cynhyrchu'r ail gyfrol o *Addysg Chambers* ac fe gymerwyd y cyfan drosodd gan Hugh Humphreys, Caernarfon, yn 1856.

Y pwysicaf o gyhoeddiadau Tegai ym Mhwllheli oedd *Yr Eifion*, newyddiadur wythnosol pris dimai cyntaf Cymru, a ddaeth allan yn Ionawr, 1856. Er na chyfaddefodd hynny y mae'n bosib mai meddwl am y gystadleuaeth o gyfeiriad *Yr Herald Cymraeg* a'r *Amserau*, dau bapur wythnosol Cymraeg a oedd eisoes yn cylchredeg yn yr ardal, yr oedd Tegai wrth benderfynu pris *Yr Eifion*.

Doedd pawb ddim yn cytuno ag ef. Teimlai llawer na chaent

Parhad ar dudalen 34

